



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Tystiolaeth o brofiad uniongyrchol wrth lunio polisiau anabledd

Kathryn Williams

Mawrth 2024



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) yn helpu i wella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a chrynhoi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a chanfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'i defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisiâu.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk/cy/

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Economic and Social Research Council

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Tystiolaeth o brofiad uniongyrchol wrth lunio polisiâu anableded

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Diffinio termau	5
Gwybodaeth a chyfranogiad dinasyddion	6
Cyfranogiad a gwybodaeth profiad uniongyrchol	7
Broceriaid gwybodaeth	8
Hierarchaeth tystiolaeth	8
Cydgynhyrchu	10
Pwy sy'n cael sedd wrth y bwrdd?	11
Dulliau	14
Dull gweithredu	14
Y Boblogaeth	14
Cyfweliadau	15
Dogfennau	16
Dadansoddiad	17
Canfyddiadau	18
Ffiniau mân-dyllog	18
Pa dystiolaeth sy'n bwysig?	20
Integreiddio a chydgynhyrchu tystiolaeth	24
Casgliad	28
Argymhellion yr awdur	28
Cyfyngiadau	29
Cyfeiriadau	30
Atodiad	37
Manylion yr Awduron	39

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i rôl tystiolaeth profiad uniongyrchol a chydgyhyrchu wrth lunio polisiau anabledd yng Nghymru.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo'n benodol i gynnwys tystiolaeth o brofiad uniongyrchol wrth lunio polisiau. Atgyfnerthwyd yr ymrwymiad hwn wrth lunio polisiau anabledd yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Drws ar Glo yn 2021.
- Mae'r derminoleg sy'n ymwneud â'r pwnc yn aml yn brin o ddiffiniadau clir, gyda chydgyhyrchu a phrofiad uniongyrchol yn aml yn cael eu cyfuno neu'n cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol.
- Mae diffinio termau allweddol ar ddechrau prosiectau a sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn dryloyw yn allweddol.
- Mae'r adroddiad yn nodi consensws y dylai profiad uniongyrchol fod yn sail i bolisi. Fodd bynnag, mae dadl ynghylch a yw profiad uniongyrchol yn dystiolaeth ac a ddylid ei werthfawrogi gymaint â ffurfiau tystiolaeth mwy traddodiadol.
- Mae'n argymhell y dylid ystyried tystiolaeth profiad uniongyrchol fel 'un adnodd yn y blwch offer tystiolaeth' ac y dylid rhoi dilysrwydd cyfartal iddo â thystiolaeth draddodiadol.
- Er gwaethaf ymrwymïadau i gydgyhyrchu a chynnwys tystiolaeth o brofiad uniongyrchol, mae'r adroddiad yn nodi rhwystrau parhaus i gyfranogiad. Mae'r rhain yn cynnwys cyfuno arbenigedd proffesiynol sydd â phrofiad uniongyrchol, anghydbwysedd pŵer, a diffyg ymddiriedaeth mewn llunwyr polisiau a sefydliadau cyhoeddus ymhlith dinasyddion.
- Mae'n argymhell bod broceriaid gwybodaeth a Llywodraeth Cymru yn gweithio i feithrin ymddiriedaeth gyda chymunedau mwy ymylol i hwyluso eu cynnwys.
- Mae'r adroddiad yn nodi diffyg consensws ar integreiddio gwahanol fathau o dystiolaeth. Mae rhai cyfranogwyr yn defnyddio triogli fel dull dilysu
- Mae dulliau cydgyhyrchol o integreiddio tystiolaeth a synthesis, sy'n cynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol, yn cael eu hyrwyddo. Efallai y bydd hyn yn gofyn am amser ac adnoddau ychwanegol o ddechrau prosiectau.

Cyflwyniad

Mae'n nod sydd wedi'i nodi gan lunwyr polisïau yng Nghymru a'r DU yn ehangach i gynnwys lleisiau dinasyddion yn eu gweithgareddau casglu tystiolaeth. Mae'r Rhagolwg Pum Mlynedd gan NHS England yn nodi ei bod yn bwysig ymgysylltu â "chymunedau a dinasyddion" wrth lunio polisi iechyd (GIG 2014, fel y nodwyd yn Crane 2018, t.9). Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo'n benodol i gynnwys tystiolaeth o brofiad uniongyrchol wrth lunio polisïau. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y rheini y mae polisïau'n effeithio fwyaf arnynt yn cael eu clywed (ee, Llywodraeth Cymru 2021a; Llywodraeth Cymru 2021b). Ym maes llunio polisïau anabledd, cafodd yr ymrwymiad i'r dull cynhwysol hwn ei atgyfnerthu yn dilyn yr Adroddiad Drws ar Glo (Foster 2021). Mae'r adroddiad, o ganlyniad i ymholiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ymchwilio i brofiadau unigolion anabl yn ystod pandemig Covid-19.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i nifer o gwestiynau allweddol:

- Pa rôl sydd gan dystiolaeth sy'n seiliedig ar brofiad uniongyrchol wrth lunio polisïau sy'n gysylltiedig ag anabledd, fel y mae llunwyr polisïau, sefydliadau brocera gwybodaeth, a grwpiau ar lawr gwlad yn ei gweld?
- Ym mha ffordd y mae tystiolaeth o brofiadau uniongyrchol yn cael ei chysyniadu a'i defnyddio?
- Pa mor effeithiol yw gwahanol fathau o dystiolaeth (ymchwil, proffesiynol, dealedig a phrofiad uniongyrchol) wedi'u hintegreiddio mewn modd cydweithredol a chydgyhyrchiol?

Mae'r adroddiad yn dechrau gyda diffiniadau o dermau allweddol. Yn dilyn hynny, mae'n archwilio llenyddiaeth bresennol ar wybodaeth am ddinasyddion a phrofiad uniongyrchol, rôl broceriaid gwybodaeth, hierarchaethau tystiolaeth, a'r cysyniad o gydgyhyrchu. Yna, mae'r dulliau a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yn cael eu hamlinellu, ac yna dadansoddiad o'r canfyddiadau yng nghyd-destun y llenyddiaeth a adolygwyd. Daw'r adroddiad i ben gyda chrynodeb ac mae'n cynnig argymhellion ar gyfer llunio polisïau anabledd a brocera gwybodaeth.

Diffinio termau

Yn hytrach na glynu wrth y diffiniad cyfreithiol o ddinesydd, sydd ym Mhrydain yn golygu rhywun sydd â'r hawl i breswyllo yn y DU, gweithio yn y DU, a'r hawl i wneud cais am

basbort Prydeinig heb gyfyngiadau (gweler GOV.UK 2023), rydyn ni'n mabwysiadu dull gweithredu ehangach, sy'n cwmpasu pob aelod o'r cyhoedd a allai fod yn rhan o'r broses llunio polisïau. O ganlyniad, bydd pawb sydd â phrofiad uniongyrchol hefyd yn cael eu hystyried yn ddinasyddion. Fodd bynnag, nid yw pob dinesydd yn unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol. Yn y cyd-destun hwn, rydyn ni'n cyd-fynd â'r dull sy'n gyffredin mewn ymchwil ac ymarfer gofal iechyd (ee Vázquez et al. 2023), gan gynnwys dim ond y rheini sydd â phrofiad go iawn o faes polisi penodol. Er enghraifft, o ran polisi anabledd, byddai hyn yn cynnwys unigolion anabl a'u teuluoedd neu ofalwyr, ond nid ymarferwyr sydd â phrofiad proffesiynol ym maes anabledd. Mae'r gwahaniaethau hyn, sy'n seiliedig ar lenyddiaeth a phrofiad uniongyrchol a phroffesiynol yr awdur ei hun o gael ei gynnwys yn y broses llunio polisi fel cyfarwyddwr anweithredol sefydliad pobl anabl ac unigolyn sy'n agored i niwed, yn hanfodol i sicrhau bod gwahaniaethau mewn profiad yn cael eu gwahaniaethu'n glir.

Honnir yn aml bod llunwyr polisi wedi ymgynghori ag unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol, pan fydd eu profiad, mewn gwirionedd, yn seiliedig ar wybodaeth broffesiynol. Er ei fod yn werthfawr, mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng y mathau hyn o arbenigedd, yn enwedig wrth ystyried pwy sy'n cael sedd wrth bwrdd gwneud penderfyniadau. Mae pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn darparu gwybodaeth leol, ddealedig (Goulart a Falanga 2022). Mae broceriaid gwybodaeth yn cydnabod bod yr wybodaeth ddealedig hon sy'n seiliedig ar ymarfer yn werthfawr, yn enwedig o ran deall sut y gellir gweithredu polisïau a darparu gwasanaethau cyhoeddus (Ward et al. 2009; Best a Holmes 2010). Fodd bynnag, ystyrir bod y math hwn o wybodaeth yn aml yn llai dilys na mathau eraill, fel gwybodaeth dechnegol (Heath a Mormina 2022).

Gwybodaeth a chyfranogiad dinasyddion

Mae'r ffyrdd y mae dinasyddion yn ymwneud â llunio polisïau a'u rhoi ar waith yn amlochrog. Mae hyn yn cynnwys ymwneud yn helaeth â gosod agenda a chyd-lywodraethu (Goulart a Falanga 2022), gwasanaethu fel aelodau lleyg ar bwyllgorau neu fyrddau (Edwards 2014), cymryd rhan mewn ymchwil gydweithredol fel ymchwil gweithredu cyfranogol (PAR) (Greenhalgh a Wieringa 2011; Heiskanen et al. 2014), prawfddarllen holiaduron ymchwil (O'Shea et al. 2019), ac fel cyfranogwyr mewn ymchwil ansoddol (Exley 2021; Sesan a Siyanbola 2021).

Mae gwerth ymgysylltu â dinasyddion yn cael ei ystyried yn anghyson. Gall gael effaith gadarnhaol, gan fod rhannu gwybodaeth yn cyfrannu at ddinasyddiaeth weithredol (Entradas 2016), a gall wneud llunio polisi yn gynhwysol ac yn rymusol (Alnabilsy a Levin 2023). Fodd bynnag, nid yw pob trafodaeth ynghylch ymgysylltu â dinasyddion yn gadarnhaol. Mae rhai awduron yn feirniadol o'r broses yn agored, gan ei disgrifio'n elyniaethus (Beresford 2019, t.8). Yn bennaf, mae'n cael ei weld neu ei ddisgrifio fel rhywbeth symbolaidd (Crane 2018, t. 10), fel rôl ymylol (O'Shea et al. 2019, t.10), rhywbeth synad yw'n gallu newid rhyw lawer

(Rose a Kalathil 2019, t.5), ac y gellid ei ystyried yn siarad gwag (Boivin et al. 2014, t.321), heb fawr o effaith ar y broses llunio polisi a'i gweithrediad ymarferol (Conklin et al. 2015; Crane 2018; O'Shea et al. 2019; Richards a Scowcroft 2020).

Ar ben hynny, mae rhai'n credu nad yw'r cyhoedd yn gallu bod yn gynhyrchwyr gwybodaeth dilys, achos o anghyfiawnder epistemig (Fricker 2007). Er enghraifft, wrth lunio polisïau'r gofod, mae rhai gwyddonwyr yn dadlau y gallai dinasyddion gael eu dylanwadu gan y cyfryngau cyffredinol (Entradas 2016, t.607), gan awgrymu y gall y cyhoedd gael eu camarwain ond nid y gwyddonwyr na'r llywodraeth (ibid, t.608). Mae'r farn hon yn rhannol oherwydd bod cred gynyddol bod 'arbenigwyr' yn fwy dibynadwy na'r 'cyhoedd', safbwynt sy'n amlwg mewn gofal iechyd lle mae dilysrwydd pobl sydd â'r label 'defnyddwyr gwasanaeth' yn cael ei ddifetha o'i gymharu â'r rhai a elwir yn 'arbenigwyr drwy brofiad' (Rose a Kalathil 2019).

Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw dilysrwydd gwybodaeth yn rhywbeth sefydlog ond yn ddibynnol ar gyd-destun, gan gynnwys ar gyfer pwy y mae'r wybodaeth yn cael ei brocera (Gough 2020; MacKillop et al. 2023; MacKillop a Downe 2023). Mae gwybodaeth leol weithiau'n cael ei hystyried yn fwy dilys (Boivin et al. 2014) gan fod yr anghenion y mae'n rhaid i lunwyr polisïau eu deall yn amrywio yn ôl lleoliad ac yn gofyn am ddeall yr anghenion a'r safbwyntiau lleol (Juri et al. 2022 t.3.) Mae hyn yn dangos y gallai gwybodaeth leol am ddinasyddion fod yn gaffaeliad i wybodaeth-fel-tystiolaeth ar gyfer llunio polisïau (Metz et al. 2019).

Gall gwybodaeth am ddinasyddion ddeillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys straeon unigol a gwybodaeth a gasglwyd gan eu cymunedau (Boivin et al. 2014). Dadleuir y dylai'r wybodaeth hon gael ei hystyried yn arbenigedd gwerthfawr (Crane 2018, t.14) gan lunwyr polisïau. Drwy gefnogi dinasyddion i ddarparu gwybodaeth fel dystiolaeth, ac os yw hyn yn cynnwys gwybodaeth gan y gymuned ehangach, gellir rhoi mwy o hygredd iddo (Boivin et al. 2014). Gellid hwyluso'r gefnogaeth hon gan froceriaid gwybodaeth (Juri et al. 2022), neu drwy gydgyhyrchu.

Cyfranogiad a gwybodaeth profiad uniongyrchol

Mae ymchwil yn dangos bod llawer o lunwyr polisïau yn deall gwerth gwybodaeth sy'n deillio o brofiad uniongyrchol, ar gyfer llunio polisïau ac ar gyfer gweithredu polisïau'n ymarferol (Greenhalgh a Wieringa 2011; Henderson a Kendall 2011; Boivin et al. 2014; Beckett et al. 2018; Beresford 2019; Culwick et al. 2019; Cooke et al. 2021; Juri et al. 2022). Ar ben hynny, mae'n well gan rai ymarferwyr brofiad uniongyrchol fel eu prif ffynhonnell wybodaeth (Steel et al. 2023). Mae ymgorffori gwybodaeth am brofiad uniongyrchol fel dystiolaeth yn cydnabod cymhlethdod sawl realiti, gan amlygu llunwyr polisi ac ymarferwyr i safbwyntiau amrywiol

(Beckett et al. 2018). Mae'n helpu i atal y canlyniadau polisi ac ymarfer cul a chyfyngedig sy'n gallu codi o wyddoniaeth draddodiadol, ostyngol (SurrIDGE a Harris 2007, t.310).

Fodd bynnag, mae pobl eraill yn tynnu sylw at rwystrau rhag ymgorffori tystiolaeth profiad uniongyrchol mewn llenyddiaeth ymarfer a llunio polisi. Mae'r rhwystrau sy'n cael eu crybwyll yn amrywiol. Mae rhai yn dadlau bod rhwystrau iaith a diwylliant yn atal cyfranogiad (Alnabilsy a Levin 2023, t.2), tra bod eraill yn cyfeirio at gyfyngiadau ariannol o ran cyrraedd y cynulleidfaoedd angenrheidiol (Beresford 2019; Rose a Kalathil 2019), diffyg adnoddau i gefnogi cyfranogwyr sydd â phrofiad uniongyrchol (Beresford 2019), gwaharddiadau oherwydd materion cydraddoldeb gan gynnwys anabledd (Beresford 2019), cyfyngiadau amser (Duncan 2017; Richard a Scowcroft, 2020) a phryderon ynghylch risg uwch heb eglurhad pellach o beth mae hyn yn ei olygu (Exley 2021, p.13).

Broceriaid gwybodaeth

Er ein bod wedi trafod y gwahanol ffyrdd y mae dinasyddion yn ymwneud â llunio polisiâu, mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn cael eu hystyried yn wahanol ac ar wahân i waith sefydliadau brocer gwybodaeth. Mae'r rhain yn hwyluso'r broses o lunio polisiâu drwy wneud tystiolaeth yn hygyrch ac yn ddealladwy i lunwyr polisiâu. Fe'i nodweddir yn aml fel ymestyn ar draws ffiniau (MacKillop et al. 2023; Neal et al. 2023), mae sefydliadau brocer gwybodaeth yn cymryd rhan mewn cyfuno a chasglu tystiolaeth i bontio'r bwlch rhwng ymchwil a pholisi. Fodd bynnag, er gwaethaf eu rôl yn y gwaith o lywio polisi mewn cyd-destunau lle mae'n orfodol cynnwys gwybodaeth am brofiad uniongyrchol a chyfranogiad dinasyddion, prin yw'r cyfeiriadau at yr elfennau hyn yn llenyddiaeth sefydliadau brocer gwybodaeth. Gallai'r trosolwg hwn ddeillio o'r gred barhaus bod yn rhaid i opsiynau polisi gael eu fframio o ran tystiolaeth i fod yn dderbyniol" (MacKillop et al. 2023, t.2).

Nid yw'r gwahaniaeth rhwng 'tystiolaeth' a 'gwybodaeth' bob amser yn glir. Mae broceriaid gwybodaeth ac endidau eraill sy'n ymestyn ar draws ffiniau yn aml yn cyfeirio at bob cysyniad ar wahân, gyda chyfeiriadau amwys at fathau cywir o dystiolaeth (Best a Holmes 2010, t.151) a thystiolaeth dda (MacKillop et al. 2023, t.5). Mae hyn yn awgrymu cyferbyniad â mathau eraill o wybodaeth neu dystiolaeth nad ydynt, ym marn sefydliadau brocer gwybodaeth, yn bodloni'r meini prawf hyn.

Hierarchaeth tystiolaeth

Mae'n gyffredin bod rhywfaint o feithrin hierarchaeth statws o wahanol fathau o dystiolaeth (gweler ffigur 1 yn Smith-Merry 2020, t.307), gan gynnwys y syniad bod ymchwil academiaidd feintiol gwrthrychol yn aml yn freintiedig dros astudiaethau ansoddol (Rose a Kalathil 2019; Isett a Hicks 2020). Fodd bynnag, mae'r syniad bod gwybodaeth ymchwil yn wrthrychol yn

ddadleuol (Greenhalgh a Wieringa 2011; Rose a Kalathil 2019; MacKillop et al. 2020; MacKillop et al. 2023), felly hefyd y syniad bod gwybodaeth wrthrychol yn ei hanfod yn fwy gwerthfawr (Beresford 2019). Gan ddeillio o feddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, defnyddir yr hierarchaeth dystiolaeth fel templed ar gyfer polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Serch hynny, cydnabyddir y dylid ystyried profiad uniongyrchol ochr yn ochr ag amrywiaeth o ffurflenni tystiolaeth eraill (gweler Oliver a Pearce 2017 am ragor o wybodaeth). Er gwaethaf y gydnabyddiaeth hon, mae gwybodaeth ymchwil yn dal i gael ei rhoi uwchben gwybodaeth y dinesydd yn yr hierarchaeth dystiolaeth (Greenhalgh a Wieringa 2011; Juri et al. 2022).

Yng nghanol cysyniadau sy'n aml yn amwys, mae rhywfaint o gydnabyddiaeth bod unigolion mewnol rhwydwaith pwerus yn siapio ystyr tystiolaeth, yn enwedig yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gyfreithlon (Exley 2021, t.3). Mae sefydliadau brocer gwybodaeth yn cynnig rhai diffiniadau o dystiolaeth, gyda rhai yn honni nad ydynt yn glynu wrth hierarchaeth tystiolaeth ac yn cynnwys synthesisau ansoddol a meintiol (MacKillop et al. 2023, t.6) ochr yn ochr â llenyddiaeth lwyd ac erthyglau cyfnodolion academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid (Neal et al. 2023, t.15). Mae hyn yn awgrymu bod gwybodaeth – ac yna tystiolaeth – yn cwmpasu mwy na dim ond ymchwil academaidd (Ward et al. 2009; Best a Holmes 2010; Kislov et al. 2017).

Er nad yw pob sefydliad brocer gwybodaeth a chynhyrchwyr gwybodaeth yn tanysgrifio i hierarchaeth gwybodaeth, mae rhai yn dal i honni bod cynnwys gwybodaeth am ddinasyddion fel tystiolaeth yn lleihau hygyrdded (Entradas 2016; Cooke et al. 2021), ac nid yw eraill yn ystyried bod gwybodaeth am ddinasyddion yn ddilys (Beresford 2019). Ar ben hynny, mae hierarchaeth ymddangosiadol rhwng tystiolaeth empirig go iawn a'r llais profiad uniongyrchol, sy'n cael ei ystyried yn aml fel straeon sy'n dod ag ef yn fyw (Sanders 2023, t.181).

Mae cydnabyddiaeth bod y rheini sydd â mwy o bŵer yn cael mwy o ddylanwad wrth benderfynu pa wybodaeth sy'n cyfrif fel tystiolaeth ac nad yw eu gwybodaeth yn cael ei chynnwys (O'Shea et al. 2019). Er enghraifft, mae unigolion fel y rheini sydd â dementia a phobl niwrowahanol yn aml yn cael eu hystyried fel lleisiau diangen (Beresford 2019, t.9) ac maent fel arfer yn cael eu dadrymuso mewn gweithgareddau casglu gwybodaeth, gan gynnwys ymgynghori a chymryd rhan mewn ymchwil (den Houting et al. 2021). Ar ben hynny, gall pobl mewn swyddi o bŵer cymharol gefnogi neu herio cyfranogiad y cyhoedd yn y gwaith o lunio polisiâu a'i weithredu'n ymarferol (Greenhalgh a Wieringa 2011; Boivin et al. 2014; Edwards 2014; Rose a Kalathil 2019; Alnabilsy a Levin 2023). Rhaid i sefydliadau brocer gwybodaeth fod yn ymwybodol o'u dylanwad wrth gasglu a chyfuno tystiolaeth, wrth iddynt benderfynu beth sy'n gredadwy, yn ddefnyddiol ac yn gyfreithlon (Best a Holmes 2010; Bornbaum et al. 2015; Gough 2020; MacKillop et al. 2023; MacKillop a Downe 2023; Neal et al. 2023). Felly, gallent gyfrannu at gynnal hierarchaethau gwybodaeth os nad ydynt yn cynnwys tystiolaeth profiad uniongyrchol.

Cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu yn arbennig o berthnasol yn y gwaith o lunio polisiau anabledd, wedi'i ategu gan y slogan gweithredaeth anabledd 'Dim byd amdanon ni hebom ni' (Bertilsdotter Rosqvist 2019). Ar ben hynny, mae ymgyrchwyr anabledd wedi bod yn hollbwysig yn y gwaith o greu lle ar gyfer llais profiad uniongyrchol, fel y dangosir gan waith arloesol fel y casgliad wedi'i olygu, sef *Stigma: The Experience of Disability* (Hunt 1966). Y casgliad hwn o draethodau oedd un o'r cyntaf i gael ei ysgrifennu gan bobl anabl i beidio â disgrifio eu cyflyrau yn unig, ond i drafod *ystyr* bod yn anabl mewn cymdeithas a chan gymdeithas.

Nid oes un diffiniad o gydgynhyrchu. Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni'n canolbwyntio ar gydgynhyrchu sy'n cynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol (Duncan 2017; Kislov et al. 2017; Beckett et al. 2018; Metz et al. 2019; Laird et al. 2020; Lamont a Maxwell 2023). Er gwaethaf llenyddiaeth helaeth ar gydgynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o bolisi ac ymarfer iechyd, ni welwyd unrhyw enghreifftiau o lunio polisiau anabledd.

Mae cydgynhyrchu gyda dinasyddion yn cael ei ystyried yn ffordd o democrateiddio gwybodaeth (Juri et al. 2022), gan arwain at bolisi dylanwadu lluosedd gwybodaeth, y credir ei fod yn arwain at ganlyniadau buddiol (Duncan 2017; Beckett et al. 2018, t.3), gan gynnwys mwy o lwyddiant polisi (Exley 2021). At hynny, ystyrir bod cydgynhyrchu yn gwella dilysrwydd ymchwil a llunio polisiau (Reyers et al. 2015; Duncan 2017) ac fel newid safbwyntiau ar beth yw gwybodaeth gyfreithlon (Beckett et al. 2018). Gallai'r newid hwn greu lle ar gyfer cynnwys gwybodaeth am brofiad bywyd fel tystiolaeth, yn hytrach na dim ond fel straeon enghreifftiol sy'n cyd-fynd â thystiolaeth ymchwil.

Fodd bynnag, gall sylweddoli canlyniadau bwriadedig cydgynhyrchu fod yn heriol i bawb dan sylw, yn enwedig pan fydd gwahanol weithleoedd a diwylliannau'n defnyddio ieithoedd gwahanol, er enghraifft, gyda diffiniadau amrywiol o gysyniadau fel salwch cronig (Culwick et al. 2019). Un mater cysylltiedig yw'r epistemolegau amrywiol – deall sut rydyn ni'n gwybod beth rydyn ni'n ei wybod – ymysg grwpiau cydgynhyrchu (Lamont a Maxwell 2023), gyda rhai awduron yn nodi bod yr hyn sy'n cyfrif fel gwybodaeth yn cael ei blismona (Rose a Kalathil 2019, t.5). Mae hyn yn awgrymu efallai na fydd dulliau cydgynhyrchu presennol o fewn y cyd-destunau hyn yn cynnwys gwybodaeth profiad uniongyrchol fel tystiolaeth i bob pwrpas, a bod dynameg pŵer yn parhau er gwaethaf nod cydgynhyrchu i democrateiddio gwybodaeth. Mae tensiynau sy'n deillio o ddeinameg pŵer anghyfartal yn aml yn sicrhau bod y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol yn cael eu diystyru, sy'n awgrymu nad yw eu profiad nhw'n ymwneud â chreu gwybodaeth ond yn hytrach am rannu gwybodaeth (Lamont a Maxwell 2023, t.140).

Mae adroddiadau sy'n peri mwy o bryder yn awgrymu y gall cydgynhyrchu gael effaith negyddol ar gynnwys gwybodaeth am brofiadau uniongyrchol fel tystiolaeth. Er enghraifft, gall cydgynhyrchu gyda dinasyddion rannu cymunedau os yw cyfraniadau cyfranogwyr dinasyddion yn cael eu siapio'n fwy gan reolau a rheoliadau y prosiect na chan eu cymunedau (Duncan 2017, t.445). Mae hyn yn awgrymu na ddylai aelodau'r gymuned fod yn rhan o'r tîm cydgynhyrchu (Duncan 2017). Fodd bynnag, safbwynt arall yw bod y sefyllfa hon yn adlewyrchu'r ffiniau a osodir ar aelodau'r gymuned gan y rhai sy'n gyfrifol. Yng ngwir ystyr cydgynhyrchu, dylai cyfranogwyr fod yn rhydd i fynegi barn eu cymuned. Ni fyddai'r rhaniad cymunedol yn ganlyniad i brosiect gwirioneddol wedi'i gydgynhyrchu petai cynrychiolwyr yn gallu cynrychioli barn eu cymuned mewn ffordd ddilys. Yn ogystal, mae pryderon am gydgynhyrchu sy'n arwain at niwed i enw da (Cooke et al. 2021, t.250), pwynt nad yw'r awduron yn ymhelaethu arno, sydd hefyd yn gwneud cynhyrchwyr a broceriaid gwybodaeth yn betrusgar i integreiddio gwybodaeth am brofiad uniongyrchol fel tystiolaeth oherwydd ofnau posibl (efallai diangen).

Er ei fod yn llai cyffredin, mae rhai llenyddiaeth yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu gwybodaeth a gesglir yn hytrach na chynhyrchu gwybodaeth, sy'n fwy perthnasol i'r prosiect presennol. Mae'r agwedd hon yn dod o dan 'meithrin gallu', lle awgrymir bod cydgynhyrchu rhwng ymchwilwyr, llunwyr polisiâu ac ymarferwyr yn gwneud gwybodaeth ymchwil yn fwy gweithredol (Heiskanen et al. 2014, t.30). Cefnogir yr honiad hwn gan y syniad bod cynnwys defnyddwyr gwybodaeth yn y broses casglu gwybodaeth yn helpu i benderfynu pa ymchwil sy'n berthnasol yn lleol (Lamont a Maxwell 2023). Ar ben hynny, argymhellir y dylai timau brocera gwybodaeth fod yn cynnwys pobl o gefndiroedd proffesiynol gwahanol (Kislov et al. 2017, t.110). Mae'r amrywiaeth hwn yn aml yn cael ei gyflawni mewn sefydliadau brocer gwybodaeth penodol, ac mae eu timau'n aml yn cynnwys academyddion ac unigolion sydd â phrofiad yn y sector cyhoeddus a/neu breifat (MacKillop et al. 2023). Fodd bynnag, awgrymir hefyd y gallai pobl sydd â phrofiad uniongyrchol, sef 'defnyddwyr gwasanaeth,' fod yn rhan o brosesau brocera gwybodaeth, nid dim ond wrth gynhyrchu gwybodaeth (Boivin et al. 2014). Mae potensial i froceriaid gwybodaeth gymryd rhan fwy gweithredol mewn cydgynhyrchu (Gough 2020), gan gynnwys chwarae rôl hwyluso drwy ddefnyddio eu harbenigedd i feithrin perthnasoedd cryf ymysg gwahanol gyfranogwyr (Beckett et al. 2018; Cooke et al. 2021). Gallai hwyluso o'r fath ehangu i feithrin gallu ar gyfer y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol i weithredu fel broceriaid gwybodaeth ar gyfer eu cymunedau, (ee Henderson a Kendall 2011), a allai fod o fudd wrth lunio polisiâu, a allai wella'r defnydd o fentrau polisi yn y gymuned drwy'r math amgen hwn o ymestyn ffiniau.

Pwy sy'n cael sedd wrth y bwrdd?

Gellid dadlau mai'r mater pwysicaf mewn cydgynhyrchu, y gellir ei drosglwyddo i gynnwys gwybodaeth profiad uniongyrchol fel tystiolaeth, yw penderfynu pwy sy'n cael sedd wrth y

byrddau cynhyrchu, cyfuno a defnyddio gwybodaeth. Dadleuir bod dinasyddion, yn enwedig y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol, yn gallu democrateiddio cynhyrchu gwybodaeth a newid safbwyntiau ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'dystiolaeth'. Fodd bynnag, mae'r hawliadau hyn yn aml yn cael eu tansellio drwy eithrio rhai unigolion drwy feini prawf recriwtio cyfyngol neu drwy greu hierarchaeth o leisiau sy'n fwy neu'n llai dilys.

Nid yw'r sefydliadau brocer gwybodaeth a'r llenyddiaeth llunio polisi yn cysyniadu cydgynhyrchu yn gyson fel rhywbeth sy'n cynnwys llais y profiad uniongyrchol. Yn wir, er mai ychydig o ddiffiniadau a roir yn benodol, mae diffiniad Neal et al. (2023) yn awgrymu eithrio defnyddwyr gwasanaeth, sef pobl â phrofiad uniongyrchol:

Rydyn ni hefyd yn diffinio cynhyrchwyr gwybodaeth fel yr unigolion neu'r sefydliadau hynny sy'n ymwneud â chreu dystiolaeth ymchwil (ee ymchwilwyr, sefydliadau ymchwil) a defnyddwyr gwybodaeth fel unigolion neu sefydliadau y mae eu penderfyniadau'n cael eu llywio gan dystiolaeth ymchwil (ee ymarferwyr, llunwyr polisiau, sefydliadau nid-er-elw.) (t.4)

Pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yw'r rheini y bydd newidiadau i bolisiau yn effeithio fwyaf arnyn nhw, ac yng Nghymru, mae disgwyl iddyn nhw gael sedd wrth y bwrdd. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd lleisiau profiadau uniongyrchol yn cael eu cynnwys, mae cwestiynau ynghylch pwy sy'n cael bod yn yr ystafell (Beresford 2019; Exley 2021, t.9).

Mae dadl ynghylch dilysrwydd canfyddedig dinasyddion sy'n cael eu recriwtio ar gyfer prosiectau a gafodd eu cydgynhyrchu (Boivin et al. 2014). Mae rhai yn disgwyl i aelodau dinasyddion fodloni meini prawf tebyg i'r rhai a ddefnyddir gan sefydliadau brocer gwybodaeth, fel y gallu i gydweithio, bod yn "ceisio consensws", aros yn wrthrychol ac yn annibynnol (Duncan 2017, t.445), a chyfleu gwybodaeth yn glir ac yn gryno (Sanders 2023). Mae eraill yn disgrifio recriwtio aelodau o ddinasyddion fel mater o gyfleustra, gan ddewis unigolion maen nhw wedi gweithio gyda nhw o'r blaen yn aml (Juri et al. 2022). Yn fwy anarferol, mae rhai prosiectau'n dewis eu cynrychiolwyr profiad uniongyrchol yn ddemocrataidd (Henderson a Kendall 2011). Mae'r dulliau recriwtio hyn yn awgrymu, hyd yn oed wrth gynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol, bod yr 'unigolion arferol' yn cael eu cynnwys, tra bo'r rhai o gymunedau mwy ymylol, a allai gynnig lleisiau sy'n anghytuno, yn cael eu heithrio (Duncan 2017; Beresford 2019).

Mae cydnabyddiaeth o ddiffyg lleisiau gwahanol mewn cydgynhyrchu (Juri et al. 2022), sy'n arbennig o berthnasol o ystyried bod y rheini sy'n aml yn cael eu heithrio yn dod o grwpiau

lleiafrifol (Beresford 2019). Er enghraifft, mae pobl o ethnigrwydd lleiafrifol yn aml yn cael eu 'gadael ar y cyrion', tuedd a welir mewn nifer o wledydd a chyd-destunau polisi (Elvy 2014 a ddyfynnwyd yn Alnabilsy a Levin 2023, t.2). Mae angen mwy o ymdrech i gynnwys cymunedau brodorol ac ethnigrwydd lleiafrifol eraill (Juri et al. 2022). Mae menywod hefyd yn wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan, neu pan fyddant yn cael eu cynnwys, maent yn canfod nad oes neb yn gwrandao ar eu sylwadau (Alnabilsy a Levin 2023). Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig i'r prosiect presennol yw eithrio pobl anabl (Beresford 2019). Yn ôl Beresford, mae'r rhesymau dros yr eithrio hwn yn driphlyg: tybir eu bod yn anghymhwys, lle tybir ar sail y math o nam bod eu cynnwys yn rhy gymhleth; rhwystrau cyfathrebu, yn enwedig i aelodau o gymunedau B/byddar; ac ofn anghytuno a fyddai'n arwain at leisiau diangen, gydag enghreifftiau'n aml yn cynnwys pobl niwrowahanol a phobl sydd â dementia (t.9).

Gall y cwestiwn ynghylch pwy sy'n cael sedd wrth y bwrdd ar gyfer cyfrannu gwybodaeth a thystiolaeth wrth lunio polisiâu naill ai greu neu liniaru cystadleuaeth a thensiynau rhwng gwahanol grwpiau cydraddoldeb (Sanders 2023). Fodd bynnag, yn hytrach na meithrin amgylchedd lle mae cynrychiolwyr o wahanol grwpiau cydraddoldeb yn teimlo eu bod yn cystadlu am un sedd (Sanders 2023), gallai fod yn fwy buddiol ehangu'r bwrdd i sicrhau bod seddi ar gyfer y rheini nad ydynt yn cael eu gwahodd fel arfer (Wibeck et al. 2022).

Dulliau

Dull gweithredu

Gwnaethom gynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig a dadansoddiad dogfennol. Er bod cyfweiliadau yn ddull addas ar gyfer casglu data ar farn a phrofiadau pobl, mae'n bwysig nodi mai'r data hyn yw'r hyn y mae cyfranogwyr yn fodlon ei rannu ag ymchwilydd a'u bod wedi'u llunio ar y cyd yn ystod y broses gyfweld (Frey 2020). Ar ben hynny, mae dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu i'w defnyddio gan y cyhoedd yn aml yn cael eu llunio'n ofalus, gan gyflwyno gwybodaeth y mae'r awdur yn ei bwriadu ar gyfer y darlennydd. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar sut mae tystiolaeth profiad uniongyrchol a chydgyhyrchu ar gyfer llunio polisïau anabledd yn cael eu trafod a'u cysyniadu, yn hytrach na datgan 'gwirionedd gwrthrychol'. Drwy roi sylw i'r trafodaethau a luniwyd gan gyfranogwyr mewn cyfweiliadau ac awduron dogfennau, buom yn edrych ar sut mae sefydliadau brocera gwybodaeth, sefydliadau ar lawr gwlad, a Llywodraeth Cymru yn cysyniadu tystiolaeth profiadau uniongyrchol a chydgyhyrchu, yn ogystal â'u rôl wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer llunio polisïau anabledd yng Nghymru.

Y Boblogaeth

Nod yr astudiaeth oedd cyfweld â chyfranogwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau anabledd ar lawr gwlad (GRO) a oedd wedi cyfrannu at lunio polisïau anabledd yng Nghymru, unigolion mewn sefydliadau brocer gwybodaeth a oedd wedi rhoi tystiolaeth i lywio'r gwaith o lunio polisïau anabledd yng Nghymru, a gweithwyr Llywodraeth Cymru, fel gweision sifil, a oedd yn ymwneud â'r broses o lunio polisïau anabledd yng Nghymru.

Rhodddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth hon gan Ysgol Busnes Prifysgol Caerdydd, cyfeirnod SREC 2153.

Ychydig iawn o sefydliadau brocer gwybodaeth sy'n nodi eu hunain yn benodol fel hyn. I bennu cynhwysiant yn yr astudiaeth, gwnaethom ddefnyddio meini prawf a oedd yn deillio o ddisgrifiad MacKillop et al. (2023) o nodweddion allweddol y sefydliadau ac adeiladu matrices i sgorio sefydliadau posibl. Roedd y matrices hwn yn seiliedig ar ddisgrifiadau a ysgrifenasant eu hunain o'u gwaith a phrofiad eu gweithwyr a gyhoeddwyd ar eu gwefannau (Tabl 1). Nodwyd sefydliadau brocer gwybodaeth posibl drwy adroddiadau sgrinio, fframweithiau gweithredu, a gwerthusiadau a gynhyrchwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â pholisi anabledd, gan chwilio am unrhyw sôn am gyfranogiad gan asiantaethau allanol. Diffiniwyd sefydliadau ar lawr gwlad fel sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan aelodau o'r grŵp y maent yn ei gynrychioli, sef yn yr achos hwn, pobl anabl, a'u prif swyddogaeth yw eiriolaeth systemau i wella bywydau'r rhai y maen nhw'n eu cynrychioli. Mae'n werth nodi bod llawer o

sefydliadau ar lawr gwlad yn cyflawni swyddogaethau tebyg i sefydliadau brocer gwybodaeth, gan gynnwys cyfuno gwybodaeth ar gyfer llunio polisiâu. Cafodd y paramedr hwn ei ddiffinio cyn recriwtio cyfranogwyr ar gyfer cyfweiliadau a chwilio drwy ddogfennau.

Yn ddiddorol, ychydig o gyfeiriadau at sefydliadau brocer gwybodaeth a ganfuwyd mewn dogfennau polisi ac adroddiadau sy'n ymwneud ag anabledd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, nid oedd llawer o'r dogfennau polisi a'r adroddiadau a gafodd eu sgrinio yn sôn am gyfranogiad broceriaid gwybodaeth allanol. Yn aml, cynhaliwyd y gwaith yn fewnol, ochr yn ochr â chynghorwyr profiad uniongyrchol a sefydliadau trydydd sector fel Mudiadau Pobl Anabl. Cafodd yr ychydig sefydliadau a grybwyllwyd eu hychwanegu at y matrices i ganfod pa mor agos oedden nhw at y cysyniad o sefydliad brocer gwybodaeth, er mwyn penderfynu pa sefydliadau fyddai'n addas ar gyfer cymryd rhan yn y prosiect hwn.

Tabl 1 – Matrics Sefydliad Brocer Gwybodaeth (KBO) a Sgôr Sefydliadol

Pwynt	Sgôr uchaf	KBO 1	KBO 2
Mae llunio polisiâu ar sail tystiolaeth yn ganolog i'w gwaith (unig swyddogaeth, neu brif swyddogaeth).	2	1	2
Ymestyn ar draws y ffiniau:			
<ul style="list-style-type: none"> • Offer a phrosesau (ee cyfuno tystiolaeth, dadansoddi data) 	3	3	3
<ul style="list-style-type: none"> • Perthnasoedd (polisi, ymchwil ac ymarfer) • Timau amrywiol (academyddion, gweision sifil, y trydydd sector a'r sector preifat) 			
Ariennir gan y Llywodraeth, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy grantiau.	1	1	1

Anfonwyd negeseuon e-bost yn cynnwys taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr a ffurflenni caniatâd at weithwyr o'r sefydliadau ar y rhestr fer. Anfonwyd y rhain naill ai'n uniongyrchol at unigolion neu at flychau post timau, er enghraifft, Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru. Arweiniodd y dull hwn at saith cyfweiliad (KBO n=2, GRO n=2, Llywodraeth Cymru n=3).

Cyfweiliadau

Anfonwyd canllaw cyfweiliad, a oedd yn cynnwys cwestiynau enghreifftiol a phynciau trafod, at bob cyfranogwr cyn eu cyfweiliadau. Cafodd y cyfweiliadau eu cynnal a'u recordio gan ddefnyddio Zoom, a oedd yn para rhwng 34 a 71 munud. Dechreuodd pob cyfweiliad drwy ofyn i'r cyfranogwr am ei broses ar gyfer casglu tystiolaeth ar gyfer llunio polisiau. Roedd y cwestiynau dilynol yn canolbwyntio ar gynnwys tystiolaeth profiad uniongyrchol cyn symud at gydgyhyrchu ac integreiddio gwahanol fathau o dystiolaeth. Cynhaliwyd un cyfweiliad drwy e-bost.

Cafodd y cyfweiliadau eu trawsgrifio'n fuan ar ôl iddynt ddod i ben, a chafodd y trawsgrifiadau eu rhoi dan ffugenw ar unwaith. Cafodd y trawsgrifiadau eu hadolygu wrth wrando ar y recordiadau sain, gydag anodiadau yn dangos lle roedd cyfranogwyr yn pwysleisio geiriau neu ymadroddion penodol.

Dogfennau

Gwnaethom gynnal dull systematig o leoli dogfennau priodol i'w dadansoddi gan ddefnyddio'r meini prawf cynnwys canlynol:

- Cynhyrchwyd gan KBO/GRO cysylltiedig a/neu;
- Cynhyrchwyd ar gyfer – a chyhoeddwyd gan – Lywodraeth Cymru a;
- Ysgrifennu am gydgyhyrchu ar gyfer llunio polisiau a/neu;
- Ysgrifennu am brofiad uniongyrchol ar gyfer llunio polisiau a/neu;
- Rhoi enghreifftiau o gydgyhyrchu ar gyfer llunio polisiau a/neu;
- Rhoi enghreifftiau o dystiolaeth o brofiad uniongyrchol ar gyfer llunio polisiau.

Cafodd dogfennau eu heithrio os:

- Na chawsant eu cynhyrchu gan KBO/GRO cysylltiedig a/neu;
- Na chawsant eu cynhyrchu ar gyfer – neu wedi ei cyhoeddi gan – Lywodraeth Cymru a;
- Nid oeddynt yn canolbwyntio ar bobl anabl (ee canolbwyntio ar ofalwyr) a/neu;
- Oedd ganddynt lai nag un paragraff am gydgyhyrchu ar gyfer llunio polisi a/neu;
- Oedd ganddynt lai nag un paragraff am brofiad uniongyrchol ar gyfer llunio polisi a/neu;
- Oeddynt wedi sôn am gydgyhyrchu a/neu brofiad uniongyrchol yn benodol ynglŷn ag ymarfer a/neu;
- Nid oeddent ar gael i'r cyhoedd.

Mae 'Polisi' yn cwmpasu gwahanol ffurfiau, gan gynnwys Codau Ymarfer, Fframweithiau, Cynlluniau Gweithredu, Mesurau, Deddfau, Cynlluniau Gweithredu Strategol, ac Ymchwiliadau sy'n rhoi gwybodaeth i lunwyr polisiâu. O ganlyniad, cafodd yr holl ffurflenni hyn eu cynnwys o dan ymbarél 'creu polisi' ar gyfer yr astudiaeth hon.

Cynhaliwyd chwiliad am ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd (gan gynnwys adroddiadau, datganiadau ysgrifenedig, tudalennau gwe, ac ati) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a'r holl sefydliadau a oedd wedi cytuno i gael eu cyfweld gan ddefnyddio termau eang fel 'anabl', 'anabledd', 'cydgynhyrchu', a hefyd 'profiad uniongyrchol' (n=236). Cafodd teitlau a chyflwyniadau eu sgrinio i weld a oeddent yn berthnasol, a chafodd yr holl ddogfennau a allai fod yn berthnasol eu llwytho i lawr ar gyfer sgrinio testun llawn (n=41). Roedd y sgrinio hwn yn edrych yn fanwl ar sut roedd cydgynhyrchu a phrofiad uniongyrchol yn cael eu cyflwyno, gan roi sylw penodol i'r cwestiwn a oedd y rhain yn cael eu crybwyll yn benodol o ran llunio polisiâu. Cafodd dogfennau eu heithrio os oeddent yn sôn am gydgyhyrchu a/neu brofiad uniongyrchol yng nghyd-destun ymarfer neu ymchwil yn unig (n=13); dim ond enghreifftiau o bolisi a gydgyhyrchwyd heb ymhelaethu ar y broses (n=2); adolygiadau llenyddiaeth (n=1); pobl anabl wedi'u heithrio o brofiad uniongyrchol (n=1); neu roeddent yn amherthnasol i'r broses o lunio polisi (n=1). Yn y pen draw, cafodd 23 o ddogfennau eu cynnwys yn y dadansoddiad (Atodiad 1).

O'r 23 dogfen a ddadansoddwyd, dim ond dwy a gydgyhyrchwyd gyda phobl anabl.

Dadansoddiad

Cafodd yr holl ddogfennau a thrawsgrifiadau eu lanlwytho i NVivo12 i'w dadansoddi. Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio dadansoddiad thematig atblygol chwe cham Braun a Clarke (2022). Roedd hyn yn cynnwys ymglyfarwyddo drwy ddarllen y data dro ar ôl tro; codio gyda ffocws ar sut y trafodwyd cydgynhyrchu a phrofiad uniongyrchol yn hytrach na chynnwys semantig yn unig; cynhyrchu themâu cychwynnol o'r codau; datblygu ac adolygu themâu ar draws y set ddata; enwi themâu; ac ysgrifennu'r dadansoddiad.

Gan fod y dogfennau'n amrywio o ran ffocws, nid oedd pob un yn cynnwys data a oedd yn mynd i'r afael â phob cwestiwn ymchwil. O ganlyniad, nid yw'r themâu adeiledig yn cynrychioli consensws ac nid ydynt yn deillio o'r holl eitemau data. Er enghraifft, dim ond 13 eitem oedd yn cynnwys data a oedd yn ymwneud â'r thema ffiniau mân-dyllog. Er nad yw hyn yn lleihau cyfoeth y data, gellid ei ystyried yn gyfyngiad ar yr astudiaeth. Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno'r themâu a'r is-themâu sy'n deillio o'r dadansoddiad.

Canfyddiadau

Ffiniau mân-dyllog

Mae'r data'n dangos nad oes gan rai cysyniadau o'r llenyddiaeth ddiffiniadau sefydlog. Mae hefyd yn dangos bod cysyniadau â diffiniadau amrywiol weithiau'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol neu'n gryno. Er enghraifft, gallai llunio polisi anabledd ymwneud yn benodol â pholisïau'n ymwneud â phobl anabl yn unig. Ar y llaw arall, gallai hefyd gwmpasu sut mae polisi cyffredinol yn effeithio ar bobl anabl, lle nad oes ffiniau clir (Brocer Gwybodaeth 2). Fel y nododd un cyfranogwr, nid yw pobl anabl yn byw mewn swigod (Ar Lawr Gwlad 1).

Yn gyffredinol, deallir tystiolaeth o gydgyhyrchu a phrofiad uniongyrchol fel dau gysyniad ar wahân. Mae cydgyhyrchu yn aml yn cael ei ddisgrifio fel proses neu ddull gweithredu i gynnwys pobl mewn partneriaeth gyfartal, er enghraifft, i gymryd rhan mewn gosod agenda ar y cyd (Heath a Mormina 2022, t.1708) neu wneud penderfyniadau. Fel arfer, disgrifir tystiolaeth o brofiad uniongyrchol fel gwybodaeth gan unigolion sydd â phrofiad personol o bwnc. Wrth lunio polisïau anabledd, mae hyn yn aml yn cyfeirio at bobl anabl. Fodd bynnag, mae rhai hefyd yn cynnwys rhieni neu ofalwyr pobl anabl yn y diffiniad hwn.

Mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng ymchwil sy'n cynnwys profiad uniongyrchol a chyflwyno'r profiad uniongyrchol hwnnw, a chynnwys hynny mewn adroddiad...a math o gydgyhyrchu" (Brocer Gwybodaeth 2).

I rai o'r rhai a gyfwelwyd, mae tystiolaeth o brofiad uniongyrchol yn ymchwil ansoddol dda (Brocer Gwybodaeth 2). I eraill, mae profiad uniongyrchol ar wahân i ymchwil ansoddol:

Rydyn ni'n gwneud ymchwil ansoddol a meintiol hefyd. Ond mae hynny ar wahân (Llywodraeth Cymru 1).

Roedd dogfennau a'r rhai a gyfwelwyd hefyd yn aml yn trafod cydgyhyrchu a phrofiad uniongyrchol yn gyfnewidiol. Ar adegau eraill, roedd tystiolaeth o gydgyhyrchu a phrofiad uniongyrchol yn cael eu trin fel pethau nad oes modd eu gwahanu:

Datblygu ein defnydd a'n dealltwriaeth o brofiad uniongyrchol drwy sefydlu dull cydgynhyrchu" (Dogfen WG28)

Does dim modd i chi gydgynhyrchu heb brofiad uniongyrchol (Ar Lawr Gwlad 2)

Mae hyn yn awgrymu, er y gall pobl ddefnyddio'r un termau, eu bod weithiau'n priodoli gwahanol ystyron iddynt. Heb ddiffiniadau y cytunwyd arnynt, gall fod yn heriol i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol ddeall y pwnc. I bawb sy'n gysylltiedig, mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnwys pan fydd tystiolaeth a pholisi'n honni eu bod yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn bwysig ystyried nid yn unig sut y gall gwahaniaethau llythrennol mewn iaith a diwylliant greu rhwystrau i gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol, fel y trafodwyd yn Alnabilsy a Levin (2023), ond hefyd arferion a diwylliannau iaith sefydliadol gwaharddol.

Yn nodweddiadol, deellir bod gan sefydliadau brocer gwybodaeth a sefydliadau ar lawr gwlad rolau gwahanol yn y broses tystiolaeth-am-bolisi (MacKillop et al. 2023). Fodd bynnag, mae'r ffordd y disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd eu gwaith yn awgrymu bod y ffiniau rhwng y rolau hyn yn fân-dyllog. Er enghraifft, mae sefydliadau ar lawr gwlad yn aml yn cyflawni swyddogaethau tebyg i froceriaid gwybodaeth, gan gynnal ymchwil cefndirol (Ar Lawr Gwlad 1) a gweithredu fel twnnel (Ar Lawr Gwlad 2) i ddarparu tystiolaeth i lunwyr polisïau.

Mae'r data hefyd yn datgelu bod broceriaid gwybodaeth yn gallu disgrifio eu gwaith gan ddefnyddio iaith sefydliadau ar lawr gwlad, megis cymryd rhan mewn 'eiriolaeth':

O safbwynt eiriolaeth, mae'n debyg mai'r prif beth y mae tystiolaeth uniongyrchol yn ei wneud yw dangos effaith pethau mewn gwirionedd (Brocer Gwybodaeth 1).

Mae hyn yn herio'r syniad bod sefydliadau brocer gwybodaeth yn wahanol i fathau eraill o sefydliadau, gan awgrymu bod eu gwahaniaethau'n cael eu 'hadeiladu' yn hytrach na'u bod yn rhai 'go iawn' (gweler MacKillop et al. 2023).

Mae'r llenyddiaeth yn aml yn portreadu pobl sydd â phrofiad uniongyrchol, llunwyr polisïau, broceriaid gwybodaeth, a sefydliadau ar lawr gwlad fel grwpiau ar wahân, heb fawr o gydnabyddiaeth o orgyffwrdd posibl. Fodd bynnag, mae'r cyfweiliadau a'r dogfennau'n dangos bod llunwyr polisïau a sefydliadau ar lawr gwlad hefyd yn bobl sydd â phrofiad uniongyrchol:

Rydyn ni'n sefydliad pobl anabl ac mae ein holl staff yn anabl. Mae pob un o'n hymddiriedolwyr yn anabl (Ar Lawr Gwlad 2).

Fe wnes i sôn yn fyr am gael profiad uniongyrchol o staffio (Llywodraeth Cymru 1).

Fodd bynnag, trafodwyd hyn o bryd i'w gilydd mewn ffordd a oedd yn rhoi pobl o sefydliadau ar lawr gwlad i'r rheini y gellid eu hystyried yn unigolion 'lleyg' sydd â phrofiad uniongyrchol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r syniad bod bod yn berson â phrofiad uniongyrchol yn annigonol; mae angen iddynt hefyd ddeall sut mae polisi'n gweithio i sicrhau newid cadarnhaol wrth lunio polisiâu:

Nid oes angen profiad uniongyrchol arnoch chi yn unig, mae angen i chi allu deall polisi yn glir (Ar Lawr Gwlad 1).

